**Enw'r claf:** ______________________ **Dynodydd unigryw'r claf:** ______________________

## Sgil-effeithiau cynnar/tymor byr posibl

**Yn dechrau yn ystod radiotherapi neu'n fuan ar ôl cwblhau radiotherapi ac, fel arfer, yn diflannu o fewn dau i chwe mis ar ôl cwblhau radiotherapi. Mae'r amlderau yn rhai bras.**

| | |
|---|---|
| **Disgwyliedig**<br>50%–100% | ☐ **Blinder**<br>☐ **Amlder ysgarthu** (ysgarthu'n amlach na'r arfer) a **brys ysgarthu** (awydd sydyn i ysgarthu)<br>☐ **Carthion mwy rhydd** gyda mwy o fwcws neu wynt na'r arfer<br>☐ **Amlder wrinol** (pasio wrin yn amlach na'r arfer) a **brys wrinol** (awydd sydyn i basio wrin)<br>☐ **Colli gwallt lle rhoddir triniaeth**<br>☐ **Radiotherapi i'r abdomen:**<br>**– Cyfog a/neu chwydu**<br>☐ **Radiotherapi i ran isaf y pelfis/fwlfa:**<br>**– Poen ar y croen, y croen yn cosi, cochni a methiant y croen**<br>**– Llid y croen wrth basio wrin ac ysgarthu**<br>**– Poen/anesmwythder yn y rhefr**<br>**– Y fagina'n cosi neu redlif o'r fagina** |
| **Cyffredin**<br>10%–50% | ☐ **Poen ar y croen, y croen yn cosi a chochni** – cochni ar groen gwyn a lliw tywyll cynnil, melyn/porffor/llwyd ar groen brown a du<br>☐ **Llid y croen wrth basio wrin ac ysgarthu**<br>☐ **Systitis/poen wrth basio wrin** |
| **Llai cyffredin**<br>Llai na 10% | ☐ **Poen/anesmwythder yn y rhefr**<br>☐ **Y fagina'n cosi neu redlif o'r fagina**<br>☐ **Cyfrifiadau gwaed is** – sy'n achosi anemia, gwaedu neu'r risg o haint |
| **Anghyffredin**<br>Llai nag 1% | ☐ **Gwaedu o'ch pledren neu'ch coluddyn** |
| **Risgiau penodol i chi o ganlyniad i'ch triniaeth** | |
| | **Rwy'n cadarnhau** bod y sgil-effeithiau uchod wedi cael eu hesbonio i mi. — **Blaenlythrennau'r claf** ☐ |

